**CYNGOR CYMUNED LLANELLTYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU**

Cynhelir Cyfarfod Blynyddol o'r Cyngor uchod yn Neuadd Bentref Llanelltyd, Nos Fawrth, 14 Gorffennaf 2026, am 7.30 o'r gloch

**Cofnodion**

**Presennol:**

Gareth Ellis, Geraint Rowlands, Elfed ap Gomer, Llinos Rowlands, Eleri Jones a Cynghorydd Delyth Lloyd Griffiths

**Ymddiheuriadau:**

Simon Evans, Gwenan Owen

**1. Datgan Diddordeb**

Datganodd Geraint ddiddordeb ynglŷn â thorri llwybr y golff.

**2. Cadarnhau Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd Mehefin, 2026**

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ym Mehefin 2026.

**3. Materion yn Codi o'r Cofnodion - Mehefin, 2026**

- **Cronfa Cefnogi Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned 2026 -** Trafodwyd y camau nesaf yn dilyn derbyn y grant ar gyfer prosiect 'Cyfoethogi Bro - Rhan Dau'. Cytunwyd i archebu'r byrddau hysbysu a'r meinciau fel rhan o'r prosiect.
- **Farchynys**
  Trafodwyd y gwahoddiad gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri i gyfarfod ar y safle mewn ymateb i bryderon y Cyngor.Cynhaliwyd y cyfarfod ar 28 Gorffennaf. Cafwyd diweddariad yn dilyn y cyfarfod, a nodwyd y bydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn dod yn ôl at y Cyngor cyn diwedd mis Awst gydag opsiynau ar gyfer y camau nesaf ynglŷn â Farchynys.

**4. Adroddiad y Cynghorydd Delyth Lloyd Griffiths**

**5. Materion Ariannol**

Nodwyd y taliadau canlynol:

- Cyflog y Clerc o £430.40 (yn cynnwys cyflog y mis blaenorol).
- Treth PAYE y Clerc i HMRC o £157.60.
- Anfoneb Cyngor Gwynedd o £445.00 am gasglu gwastraff ym Mynwent Llanelltyd.
- Taliad o £150 i Geraint am dorri llwybr y golff.

**6. Archwilio**

Dim diweddariad.

**7. Mynwent Llanelltyd**

Trafodwyd y ffioedd sy'n ymwneud â'r fynwent.

**8. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri**

Dim diweddariad.

**9. Gohebiaeth**

Dim diweddariad.

**10. Bioamrywiaeth**

Dim diweddariad.

**11. Ffyrdd a Llwybrau**

- Trafodwyd cwyn am ordyfiant ger tai Cyngor ym Montddu sy'n ymestyn i'r ffordd. Bydd y Cynghorydd Delyth Lloyd Griffiths yn dilyn y mater i fyny.

**12. Materion eraill**

Dim materion eraill.